cymorth cymru
cysylltu • cryfhau • dylanwadu

# Cymorth Cymru

# Cynhadledd Flynyddol

## 29 Ionawr 2025

## Y Deml Heddwch, Caerdydd



Noddir gan:

moxie



# Your Recruiting Rock

## Wales' Leading Charity & Housing Recruitment Service.

We're on a mission to connect purpose-driven individuals with housing and homelessness services across Wales. Our passion lies in helping people focused organisations build strong, values-led teams.

FIND OUT MORE

Partnering with incredible organisations:

PLATFORM

Llamau
Imagine a World Without Homelessness

The Salvation Army

calan dvs
Providing sanctuary. Inspiring change.

united welsh

# Rhaglen y Gynhadledd

**9:30-9:40**

## Croeso

- **Katie Dalton - Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru**

**9:40-10:30**

## Y Brif Araith

- **Jayne Bryant AS - Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

Pleser o'r mwyaf yw croesawu Jayne Bryant MS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, i draddodi'r brif araith i agor ein cynhadledd. A hithau wedi'i phenodi i'r portffolio hwn ym mis Gorffennaf, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi treulio'r chwe mis diwethaf yn dod yn gyfarwydd â'r sector tai, a deall y cyfleoedd a'r heriau sydd i ddod. Gyda chyhoeddi cynnydd yn y Grant Cymorth Tai yng Nghyllideb Ddrafft ddiweddar Llywodraeth Cymru, ac addewid o Fesur Digartrefedd cyn diwedd y tymor hwn o'r Senedd, edrychwn ymlaen at glywed gan Ysgrifennydd y Cabinet am ei chynlluniau a'i gobeithion ar gyfer y flwyddyn sydd o'n blaen.

**10:30-11:15**

## Gweledigaeth ar gyfer y gweithlu digartrefedd a chymorth tai

- **Clare Budden - Cadeirydd, Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu**

Mae ein gweithlu'n hollbwysig i'r gobaith o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr ymrwymiad i ddatblygu gweithlu gwydn a gwerthfawr yn y Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, sydd wedi bod yn datblygu argymhellion i wella cydnabyddiaeth, gwobr, a chefnogaeth i weithwyr rheng flaen. Yn ein hail sesiwn o'r dydd, pleser yw cael cwmni Clare Budden, cadeirydd y grŵp, a fydd yn amlinellu'r cynnydd sy'n cael ei wneud ac yn rhoi cyfle i lunio'r argymhellion terfynol.

## Egwyl

**11:45-12:30**

## Profiadau o hiliaeth a digartrefedd

- **Georgia Leith - Uwch-swyddog Ymchwil a Gwerthuso, Crisis**

Mae cyhoeddi fersiwn ddiweddaraf Llywodraeth Cymru o'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn pwysleisio'r newidiadau sy'n angenrheidiol i wneud Cymru'n genedl wrth-hiliol erbyn 2030, yn cynnwys o fewn y sector tai a digartrefedd. Fel rhan o'n hymrwymiad i gefnogi'r gwaith hwn, pleser yw croesawu Georgia Leith o Crisis i sôn am eu hymchwil ym maes hiliaeth a digartrefedd. Mae'r ymchwil hon, a luniwyd gan banel o Arbenigwyr trwy Brofiad, yn dadlennu'r straeon dynol y tu ôl i'r ystadegau sy'n gwneud cysylltiad uniongyrchol rhwng hil a digartrefedd. Mae'r hanesion go iawn hyn yn dangos i ni sut y gall hiliaeth a gwahaniaethu gael effaith negyddol ar bob rhan o fywyd person – gan eu rhwystro rhag dod o hyd i gartref, neu swydd, neu gael mynediad at ofal iechyd.



Conference sponsor

moxie

| | |
|---|---|
| 12:30-13:30 | **Cyflog a dilyniant y gweithlu**<br>• Clare Budden a Katie Dalton - Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu<br>Yn dilyn ymlaen o sesiwn y bore, byddwn yn trafod ymchwil ac argymhellion i wella cyflogau a dilyniant gweithwyr rheng flaen yn y sector digartrefedd, ac yn gofyn am eich barn chi i lunio'r argymhellion terfynol.<br><br>**Llwybrau ôl-garchar allan o ddigartrefedd**<br>• Carl Spiller - Llywodraeth Cymru<br>Gan ddilyn argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol, sefydlwyd Gweithgor Ôl-garchar i adolygu'r trefniadau ar gyfer pobl sy'n gadael y carchar, a cheisio osgoi digartrefedd. Cewch glywed am waith y grŵp ac ymuno â'r sgwrs ynghylch beth sydd angen ei newid.<br><br>**Atebion cymorth i gymhlethdodau cynyddol**<br>• Jordan Brewer - Cymorth Cymru<br>Mae Pwyllgor Tai a Llywodraeth Leol y Senedd yn cynnal ymchwiliad i mewn i gymorth tai ar gyfer pobl fregus. Yn y gweithdy hwn, byddwn yn ffocysu ar sut y gall gwasanaethau cymorth tai a gwasanaethau cyhoeddus eraill gwrdd â chynnydd mewn cymhlethdod a risg, wrth fwydo i mewn i'r ymchwiliad. |
| | **Cinio** |
| 14:15-15:00 | **Arbenigwyr trwy Brofiad – Parhau â'r Daith**<br>• Jordan Brewer a Steph Whitehead - Cymorth Cymru<br>• Aled Miles-Yates - Cadeirydd, Bwrdd Cysgodol, Y Wallich<br>• Minky Ban - Cydlynydd Profiad Bywyd a Chyd-gynhyrchu, Y Wallich<br>Rydym yn gyffrous wrth lansio adroddiad newydd sy'n rhannu arfer da o Gymru a thu hwnt ynghylch cynnwys arbenigwyr trwy brofiad. O siapio gwasanaethau i eistedd ar fyrddau a dylanwadu ar bolisi cenedlaethol, bydd y sesiwn hon yn amlygu rhai o'r enghreifftiau yn yr adroddiad, yn cynnwys yr heriau a'r llwyddiannau a brofwyd gan sefydliadau sydd wedi ceisio gosod profiad bywyd wrth galon eu gwaith. Yn bwysig iawn, byddwn hefyd yn clywed gan arbenigwyr trwy brofiad ynghylch eu barn ar sut orau i werthfawrogi eu mewnwelediad a chefnogi eu cyfranogiad. |
| 15:00-15:45 | **Llythrennedd, Rhifedd, a Digartrefedd – Beth rydyn ni'n ei wybod??**<br>• Molly Bishop - Pennaeth Gweithredu, Centre for Homelessness Impact<br>Pleser o'r mwyaf yw croesawu'r Centre for Homelessness Impact i sôn am eu hadroddiad newydd, sy'n edrych ar y cysylltiadau rhwng digartrefedd a'r heriau gyda llythrennedd a rhifedd. Mae'r ymchwil hon yn ystyried effaith cyrhaeddiad addysgol mewn plentyndod, pa mor gyffredin yw anawsterau dysgu yn y boblogaeth ddigartref, a beth yw'r ffordd orau i wasanaethau gefnogi pobl sydd wedi cael y profiadau hyn. |
| 15:45-16:00 | **Sylwadau i gloi**<br>• Sam Austin - Cadeirydd, Cymorth Cymru |



Conference sponsor

moxie